# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

Gwybodaeth sydd i gael ei Chyflenwi ar Gais i Gofrestru
fel Person sy'n Cynnal Practis Deintyddol Preifat

## RHAN 1

**Gwybodaeth am y ceisydd**

**4.** Ym mhob achos—

(a) datganiad ynghylch a yw'r person cyfrifol wedi cael ei ddyfarnu'n fethdalwr, yn berson y gwnaed gorchymyn rhyddhau o ddyled mewn cysylltiad ag ef neu y gorchmynnwyd secwestru ei ystad, neu a yw'r person cyfrifol wedi gwneud compównd neu drefniant â'i gredydwyr, neu wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth ar eu cyfer;

(b) datganiad ynghylch gallu'r ceisydd i sicrhau hyfywedd ariannol y practis deintyddol preifat at ddiben cyflawni nodau ac amcanion y practis deintyddol preifat a nodir yn ei ddatganiad o ddiben.